



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau newydd y bwrdd

Yr Athro Calvin Jones

Mae'r Athro Jones yn ddirprwy Ddeon Gwerth Cyhoeddus a Chysylltiadau Allanol yn Ysgol Busnes Caerdydd. Mae Calvin yn addysgwr ac ymchwilydd profiadol sydd â 30 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus ac addysg. Mae Calvin yn arbenigo mewn dadansoddi economaidd rhanbarthol, a chydag arbenigedd mewn datblygu cynaliadwy, ynni, twristiaeth ac effaith technoleg ddigidol. Mae wedi cyhoeddi ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid yn eang ac mae wedi helpu i ddatblygu systemau mesur ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae Calvin wedi bod gwneud llawer i helpu i ddatblygu ystod o bolisiau a thystiolaeth yn rhanbarthol gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae wedi gwasanaethu ar fyrddau mentrau cymdeithasol mawr a bach o'r blaen ac mae'n eistedd ar bwyllgorau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys ar gyfer y Cenhedloedd Unedig.

Mark McKenna

Mae Mark McKenna yn un o sylfaenwyr Down to Earth, grŵp arobryn o fentrau cymdeithasol yn y Gŵyr, Abertawe. Dros yr 16 mlynedd diwethaf, mae Mark wedi bod yn datblygu dulliau arloesol a chynhwysol o ddarparu gofal iechyd ac addysg drwy gyfrwng adeiladu cynaliadwy, rheoli tir yn gynaliadwy ac anturiaethau awyr agored.

Yn angerddol am sicrhau newid cadarnhaol drwy ffyrdd ystyrion, ymarferol o weithio, mae cefndir Mark wedi cyfuno'r defnydd o ddeunyddiau naturiol â thechnolegau adnewyddadwy arloesol. Drwy roi grwpiau 'anodd eu cyrraedd' fel y'u gelwir yn y ganolfan, mae'n eiriolwr dros ymgysylltu â'r gymuned, gan weithio gyda phobl ifanc ac oedolion o gefndiroedd amrywiol i sicrhau bod Down to Earth yn cyflawni yr hyn y mae'n ei gredu o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol ar yr un pryd. Mae gradd a Gradd Meistr Mark ym Mhrifysgol Abertawe wedi llywio cysylltiad cryf Down to Earth â sefydliadau ymchwil academiaidd a chlinigol i sicrhau bod ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sail i'w dull cyfannol, traws-sectoraidd. Ym mis Hydref 2020, dyfarnwyd MBE i Mark am Wasanaethau i Bobl Ifanc a'r Amgylchedd.

Paul Griffiths

Mae gan Paul Griffiths brofiad mawr yn ymwneud â pholisi cyhoeddus, ei lunio, ei hyrwyddo a'i weithredu. Fel uwch gynghorydd arbennig yn Llywodraeth Cymru, cynghorodd Paul y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill Cymru ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyllid, diwygio gwasanaethau cyhoeddus a pholisi strategol. Mae gan Paul brofiad diweddar ym maes ymgynghori i wasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â strategaethau economaidd, caffael gofal cymdeithasol a llywodraethu. Gan weithio ym maes addysg uwch, ymgymerodd â chyfrifoldebau ymchwil ac addysgu yn ymwneud â chyllid cyhoeddus a gweinyddiaeth gyhoeddus. Gan weithio i lywodraeth leol yng Nghymru, bu'n allweddol wrth greu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a strwythur presennol llywodraeth leol.

Mae Paul yn gyn-gynghorydd i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac yn flaenorol bu'n aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd Paul yn gadeirydd Cyngor Cymuned Pontyclun ac yn gadeirydd corff llywodraethu Ysgol Llanhari.